

**Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin**

**Dydd Iau 19 Ionawr 2017 (ar ôl gohirio cyfarfod 8 Rhagfyr 2016)**

**Canolfan Hamdden Caerfyrddin, 6pm**

**Yn bresennol:**

**Aelodau:**

Mark Hadley (MH) - Cadeirydd  
Karen Burch (KB) - Is-gadeirydd  
Richard Leggett (RL)  
Geoff Williams (GW)  
Caroline Evans (CE)  
Chris Rankin (CR)  
Gerald Brown (GB)

**Ysgrifennydd (interim)**

Caroline Ferguson (CF), Cyngor Sir Caerfyrddin

**Ymgynghorwyr/Sylwedyddion/Siaradwyr/Y Cyhoedd**

Jason Lawday (JL), Cynorthwydd Mynediad i Gefn Gwlad  
Martin Kelly (MK),  
Bethan Edwards (BE), Innogy  
Glyn Lloyd-Jones (GJ), Cyfoeth Naturiol Cymru

**Ymddiheuriadau (Aelodau)**

Alan Warner (AW) – Cynrychiolydd  
cynnal a chadw CSC

David Stacey (DS)  
Glyn Evans (GE)  
Edward Percy (EP)  
Jillie Gardner (JG)  
Jane Evans (JE)

**Ymddiheuriadau (Ymgynghorwyr/  
Sylwedyddion)**

Marie George (MG) (Cyfoeth Naturiol  
Cymru  
Y Cynghorydd Derek Cundy

\*Mae CSC yn y cofnodion hyn yn cyfeirio at Gyngor Sir Caerfyrddin

EITEM	CAMAU I'W CYMRYD
<b>Eitem 1 Gair o groeso a chyflwyniad MH</b>  Estynnodd MH groeso i bawb i'r cyfarfod. Cyflwynodd pawb eu hunain.	
<b>Eitem 2 Fferm Wynt Brechfa</b> (symudwyd o eitem 6) MK a BE  Trosolwg a chyflwyniad o'r prosiect drwy gyfrwng PowerPoint. Rhoddwyd caniatâd datblygu i'r prosiect ar 12/03/13; rhoddwyd caniatâd i'r mynediad i'r grid ar 06/10/16. Nododd y trosolwg pa rai o ffyrdd presennol y goedwig fydd yn cael eu defnyddio, a'r ffyrdd newydd a adeiladir, a'r hawliau tramwy	

cyhoeddus yr effeithir arnyn nhw.

Holodd CE a oedd lleoliadau unrhyw dyrbinau wedi cael eu newid – dywedodd MK nad oeddent, ond y gallai rhai tyrbinau gael eu symud ychydig oddi mewn i radiws o 50m; nid oes yr un o'r rhain gerllaw hawliau tramwy cyhoeddus, ond mae ohonynt rhai ger ffyrdd y goedwig.

Roedd GW o'r farn y gallai rhai tyrbinau fod o fewn pellter moelyd; esboniodd CF gyfarwyddyd TAN 8 ac y dylai lleoliadau'r tyrbinau gydymffurfio oherwydd byddai'r mater wedi cael ei godi yn ystod y broses gynllunio a'r gwaith o ddatblygu'r Cynllun Rheoli Mynediad Cyhoeddus.

Esbonio BE y statws presennol – dechreuodd y gwaith ar y brif ffordd fynediad ym mis Tachwedd 2016 ac roedd yr Amodau Cynllunio wrthi'n cael eu gweithredu.

Esboniodd CF fod yr amodau cynllunio hyn yn cwmpasu'r safle cyfan a'r rhwydwaith o briffyrdd o amgylch a ddefnyddir gan draffig adeiladu.

Dywedodd MK fod rhaglen y prosiect yn mynd yn dda; roedd y prif fynediad wedi'i hadeiladu erbyn hyn. Bydd y pedair sylfaen gyntaf yn dod ddiwedd mis Ionawr, a'r tyrbinau cyntaf yn cael eu dosbarthu fis Gorffennaf 2017; disgwylir iddynt fod yn barod ddiwedd mis Hydref 2017. Bwriedir y bydd pŵer yn cael ei gynhyrchu am y tro cyntaf fis Tachwedd 2017. Bydd y datblygwyr ar y safle tan fis Mehefin 2018 ac wedyn bydd eu gwaith yn dod i fwcwl yn raddol.

Holodd CR am gosbau posibl am fynd y tu hwnt i'r amser.

Dywedodd BE fod y llinell yn cael ei hadeiladu.

Holodd KB pa bryd y bydd mynediad i'r cyhoedd yn aildechrau.

Dywedodd BE fod yr arwyddion newydd wedi cael eu gosod yr wythnos hon. Dywedodd MK y byddai mynediad i'r cyhoedd yn aildechrau unwaith y bydd y gwaith sylweddol wedi'i gwblhau a'r gwaith ailosod wedi dechrau; agorir yn rhannol, fesul rhan, o ddechrau'r flwyddyn nesaf ymlaen. Dywedodd hefyd y gallai'r gwaith gael ei ohirio gan wyntoedd cryfion.

Holodd CE a fyddai'r gwaith yn cael ei wneud gan weithwyr o Iwerddon. Atebodd MK mai'r contractwyr fyddai'n penderfynu ynghylch hynny.

Holodd MH pa hawliau tramwy cyhoeddus fyddai'n cael eu cau. Atebodd BE na fyddai'r holl hawliau tramwy cyhoeddus yn cael eu cau; mae'r llwybrau oddi mewn i'r llinell goch dal ar agor, a byddant yn cael eu cau yn ôl yr angen. Bydd y rhain yn cynnwys llwybrau mynediad caniataol ar hyd ffyrdd y goedwig. Cyfeiriodd BE at y Cynllun Rheoli Mynediad Cyhoeddus sy'n amlinellu'r cynigion ar gyfer hawliau tramwy cyhoeddus a Mynediad Agored, ac ymhle y gellir dod o hyd iddynt. Mae Rosie Carmichael (CSC) hefyd wedi darparu gwybodaeth ynghylch cadwraeth ar gyfer y cynllun. Mae'r datblygwyr wedi ymrwmo i gynnal a chadw'r llwybrau dros y 25 mlynedd y bwriedir i'r safle fod ar waith.

Holodd KB a fyddai mapiau'n cael eu harddangos ar y safle oherwydd roedd hi wedi gweld rhai arwyddion hysbysu ac roedd hi o'r farn eu bod yn rhy fach.

Dangosodd BE arwyddion newydd a oedd yn haws eu darllen ac a oedd wedi eu gosod yr wythnos hon.

Roedd KB o'r farn fod man cyfyng a oedd yn rhwystro marchogion rhag defnyddio llwybr o'r gogledd i'r de.

Holodd GW ynghylch y gwaith o gynnal a chadw'r celfi llwybrau a statws hirdymor y llwybrau. Atebodd BE y byddai'r celfi yn cael eu cynnal a'u cadw gan y datblygwyr. Byddai'r statws hirdymor ar ffurf llwybrau caniataol yn unig.

Dywedodd KB y dylai copi o'r llwybrau gael eu dosbarthu/hysbysu, a holodd ynghylch cyfanswm hyd y llwybrau newydd.

Cynigiodd RL y gallai'r safle gael ei hyrwyddo gan CSC fel taith gerdded sirol unwaith y bydd y llwybrau ar agor.

Dywedodd BE y byddai'r llwybrau'n cael eu hyrwyddo'n lleol fel rhan o'r datblygiad.

Cododd GW bryderon ynglŷn ag atebolrwydd o ran y llwybrau caniataol newydd a godwyd fel rhan o'r prosiect.

Holodd KB ynghylch y ddarpariaeth ar gyfer marchogaeth. Dywedodd MK nad oedd unrhyw lwybrau ceffyl wedi cael eu heffeithio ond bod llwybrau mynediad caniataol ar ffyrdd y goedwig yn cael eu diddymu yn ystod y gwaith adeiladu. Dywedodd BE nad oedd hi'n siŵr a fyddai'r holl bontydd yn addas ar gyfer ceffylau ac y byddai'n edrych yn fanylach ar y mater.

Dywedodd BE fod mesurau ar gyfer hysbysu'r cyhoedd wedi mynd rhagddynt a bod arwyddion newydd o amgylch y safle.

Roedd GW yn pryderu nad ymgynghorwyd yn briodol â'r Fforwm Mynediad Lleol, a bod hyn yn annerbyniol ac y dylid gwella hynny yn y dyfodol. Nododd BE a MK y sylwadau hyn ond dywedasant nad oedd eu sefydliad wrthi'n cynllunio unrhyw brosiectau ar gyfer y dyfodol ar hyn o bryd. Dywedodd BE ei bod yn ddefnyddiol cael adborth ac yr ymgynghorwyd ar y ffurflen drafft.

Dywedodd BE nad oedd datblygiad Dwyrain Brechfa yn mynd yn ei flaen ar hyn o bryd a bod yna brosiectau eraill o ran ffermydd gwynt.

Holodd CE ynghylch y cyllid Budd Cymunedol; dywedodd BE fod cyflwyniad wedi'i wneud i Lanllawddog ac yr awgrymwyd y gallai'r cyllid gael ei weinyddu gan weinyddwr annibynnol a grŵp ymgynghorol. Mae GW wedi gofyn am i'r Fforwm Mynediad Lleol gael ei ychwanegu at y grŵp ymgynghorol.

Gofynnodd GW am i Gymdeithas Gymunedol Llanllawddog gael ei hychwanegu at y grŵp ymgynghorol.

Holodd KB a oedd unrhyw benderfyniad wedi'i wneud ar sut y caiff y cyllid ei wario.

Atebodd BE nad oedd dim wedi'i wario hyd yn hyn, am fod y prosiect ond yn dechrau.

Dywedodd MK nad ydynt yn rheoli'r arian.

<p>Holodd GB sut y bydd yn cael ei hysbysebu; atebodd BE y bydd yn cael ei hysbysebu gan Gyfoeth Naturiol Cymru a hynny drwy eu gwefan nhw, o dan 'Cylchlythyr Cyllido'.</p>	
<p><b>Eitem 3 Aelodau Newydd/Ymddiswyddiadau</b> (symudwyd o eitem 2 ar yr agenda)</p> <p>Dywedodd CF nad oedd dim.</p>	
<p><b>Eitem 4 Ymddiheuriadau</b> (symudwyd o eitem 3 ar yr agenda)</p> <p>Cyflwynwyd ymddiheuriadau ac fe'u cofnodwyd.</p>	
<p><b>Eitem 5 Ystyried/Cymeradwyo Cofnodion – Cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Medi 2016</b> (symudwyd o eitem 4 ar yr agenda)</p> <p>Gwiriwyd a chymeradwywyd y cofnodion ar yr amod bod gwall ar dudalen 4 yn cael ei gywiro – roedd angen newid y dyddiad i 28 Medi – a bod ymddiheuriadau Chris Rankin yn cael eu hychwanegu.</p> <p>Bydd CF yn gwneud cywiriadau ac yn eu hanfon i gael eu cyfieithu.</p>	<p><b>CF</b></p>
<p><b>Eitem 6 Materion yn Codi o Gofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Medi 2016</b> (symudwyd o eitem 5 ar yr agenda)</p> <p>Trafodaeth gyffredinol ynghylch ceisiadau cynllunio; cafwyd teimlad cyffredinol y byddai'n dda pe ymgynghorid â'r Fforwm Mynediad Lleol lle bydd hawliau tramwy cyhoeddus yn effeithio ar safleoedd datblygu. Holodd RL a ddylai ymateb cyfun ddod oddi wrth y Fforwm Mynediad Lleol yn hytrach nag oddi wrth unigolion. Y teimlad cyffredinol oedd y dylai'r ymateb ddod oddi wrth y grŵp.</p> <p>Cafwyd awgrym y dylai pob Cais Cynllunio a anfonir at dîm cyfreithiol Mynediad i Gefn Gwlad gael ei anfon ymlaen at y Fforwm Mynediad Lleol am gyfnod cychwynnol arbrofol o 6 mis, ar yr amod bod yr Adran Gynllunio yn cytuno â hynny. Bydd CF yn trefnu.</p> <p>Bydd MH yn anfon briff at yr aelodau i esbonio'r cynnig i'r rheiny sy'n absennol.</p> <p>Holodd RL ynghylch Teithio Llesol / Simon Charles (SC) parthed map y rhwydwaith integredig ar gyfer cyfarfod mis Chwefror. Sylwodd KB fod rhywfaint o wybodaeth Teithio Llesol ar gael ar wefan CSC. Cadarnhaodd CF y bydd SC, fel y mae pethau, yn mynd i gyfarfod y Fforwm Mynediad Lleol i drafod Teithio Llesol yn fanylach.</p> <p>Ynghylch Pontydd, mae Cynnal a Chadw Mynediad i Gefn Gwlad wedi amlinellu 9 pont ar gyfer y flwyddyn nesaf; nid yw'r gyllideb yn ymestyn mor</p>	<p><b>CF</b></p> <p><b>MH</b></p>

<p>bell ag y gobeithiwyd ond fe fydd cynnydd ar y mater. Awgrymodd GW y gellid hyrwyddo llwybrau sydd â phontydd newydd. Awgrymodd CF y gellid defnyddio tîm cyfryngau cymdeithasol CSC. Awgrymodd RL y gellid dosbarthu gwybodaeth drwy gyfrwng y Fforwm Mynediad Lleol. Holodd KB a fyddai'r Fforwm Mynediad Lleol yn gallu cefnogi AW o ran pontydd.</p> <p>Dosbarthwyd taflenni cerdded newydd yn y cyfarfod.</p> <p>Cafwyd ymholiad gan y grŵp ynghylch a oedd gwaith yn dal i ddigwydd ar gilffyrdd / ffyrdd di-ddosbarth a faint o gyllid oedd ar gael. Bydd AW yn rhoi diweddariad.</p> <p>Holodd GW a allai AW bennu dyletswyddau ar gyfer partïon gwaith gwirfoddol posibl?</p>	<p><b>AW</b></p> <p><b>AW</b></p>
<p><b>Eitem 7 Cynhadledd y Fforwm Mynediad Lleol 2016 MH/GW/JG/CF</b></p> <p>Rhoddodd GW ddiweddariad yn sgil y cyfarfod, a oedd yn un da yn ei farn ef, gyda phresenoldeb o 85%.</p> <p>Roedd y pynciau a drafodwyd yn cynnwys diweddaru Fforymau Mynediad Lleol; mae'r modd mae Fforymau Mynediad Lleol yn gweithio wedi newid ac mae mwy o ymatebion i ymgynghoriadau.</p> <p>Nid oes cyfarwyddyd ynghylch cwynion.</p> <p>Bydd gwybodaeth ar gael gan Gyfoeth Naturiol Cymru ynghylch mynediad.</p> <p>Bydd byrddau gwasanaethau lleol yn cael eu ffurfio ar gyfer iechyd, ac ati, i gael rhagor o bobl i fynd i gefn gwlad.</p> <p>Proffwydir y bydd 30-40% o hawliau tramwy cyhoeddus yn cael eu hatal yn y dyfodol?</p> <p>Holwyd ynghylch y posibilrwydd o greu llwybrau newydd – atebodd KB fod hyn yn angenrheidiol i farchogion oherwydd prinder llwybrau ceffyl. Atebodd GJ fod Cyfoeth Naturiol Cymru yn bwrw ati gyda'r gwaith o roi mynediad i gampfeydd gwyrdd.</p> <p>Dywedodd GW fod rhai Fforymau Mynediad Lleol bellach yn gweithio gyda'i gilydd a gallai hyn fod yn bosibl i Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin.</p> <p>Atebodd MH y bydd yn mynd i gyfarfod Fforwm Mynediad Lleol Ceredigion (ynghylch: gyrru oddi ar y ffordd) a bydd yn trafod â nhw. GW – mae John Morgan yn ffurfio is-bwyllgor o'r Fforwm Mynediad Lleol. Roedd RL o'r farn y byddai'n well cael briffiad cyn bwrw ati â'r syniad hwn.</p> <p><i>*Ar yr adeg hon rhoddodd MH ddiweddariad ynghylch cyfarfod cadeiryddion y Fforymau Mynediad Lleol.</i></p> <p><i>Newid y rheoliadau o bosibl, a chyrrff cyhoeddus yn ymgynghori mwy ar wariant.</i></p> <p><i>Cydnabod cyfarfod y cadeiryddion fel cyfarfod swyddogol.</i></p>	

<p><i>Safoni gweithdrefnau, gyda mynediad gwell at y Prif Weithredwr.</i></p> <p><i>Meincnodi'r Fforwm Mynediad Lleol - adroddiadau blynyddol, cofnodion, rhoi cyngor ffurfiol i'r Prif Weithredwr.</i></p> <p><i>Bydd aelodaeth yn dod i ben os nad yw aelodau'n mynychu o leiaf pedwar cyfarfod.</i></p> <p><i>Nid oes cofnodion o'r cyfarfod ar gael eto.</i></p>	
<p><b>Eitem 8 Ymgyrch Gerdded 3D</b> MH</p> <p>Mae MH yn gobeithio am ddiweddariad, bydd yr ymgyrch ar waith yn fuan.</p> <p>Rhoddodd RL fewnbwn; croesawodd yr ymgyrch ond mae ganddo bryderon ynghylch ei chynaliadwyedd yn yr hirdymor.</p>	
<p><b>Eitem 9 Cytundeb dirprwyaeth Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog</b> CF</p> <p>Rhoddodd CF y newyddion diweddaraf; mae Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog wedi drafftio cytundeb newydd sy'n cael ei drafod rhwng adrannau'r gwasanaeth ar hyn o bryd. Rhaid i adrannau 'Cymunedau' ac 'Amgylchedd' gytuno ar y cyd ar y cynnwys, fel y ddwy adran sydd ynghlwm â'r mater.</p> <p>Mynegodd KB bryderon ynghylch parodrwydd Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog i gyflawni dyletswyddau parthed hawliau tramwy cyhoeddus lle maen nhw'n gwrthdaro â'u polisiau e.e. gwylltiroedd / Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.</p> <p>Mynegodd MH bryderon ynghylch nifer y Gorchmynion Rheoleiddio Traffig ar gilffyrdd/ nifer y Ffyrdd Di-ddosbarth yn y Parc Cenedlaethol.</p> <p>Holodd MH a KB sut y bydd y cytundeb hwn yn effeithio ar Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin.</p> <p>Holodd KB a fyddai Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn cael rhagor o staff?</p> <p>CF i ymgynghori â Phowys ynghylch ymgynghoriad y Fforwm Mynediad Lleol</p>	<p><b>CF</b></p>
<p><b>Eitem 10 - Adolygiad o'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy 2017</b> CF</p> <p>Rhoddodd CF fraslun a diweddariad. Roedd ymgynghorydd (Capita) wedi'i benodi – disgwyl nawr i'r broses symud yn ei blaen. Mae angen rhoi cychwyn ar y cyswllt a chael cyfarfod cychwynol â Capita, gyda chyfarfod i ddilyn â'r Fforwm Mynediad Lleol, ym mis Chwefror o bosibl neu mewn cyfarfod ar wahân.</p> <p>Gofynnodd RL am fethodoleg, ac am rywbeth y gallai weithio gydag ef ar y</p>	<p><b>CF/Capita</b></p>

<p>cyd, yn ogystal ag amserlen glir. Mae'n pryderu y gallai'r broses redeg yn hwyr.</p> <p>Atebodd CF fod y weithdrefn gaffael wedi arafu'r cynnydd ond nad oedd modd osgoi hynny – dylai pethau fynd yn eu blaenau'n gyflymach o hyn ymlaen.</p> <p>Awgrymodd MH y dylai'r Fforwm Mynediad Lleol gysylltu â'r Prif Weithredwr i geisio cyflymu pethau.</p> <p>Atebodd RL y byddai'n well, efallai, aros tan y cyflwyniad / y cyfarfod nesaf, a chysylltu â Capita yn uniongyrchol i osgoi gorfod mynd trwy'r drefn briodol drwy gyfrwng yr Awdurdod Lleol.</p> <p>Bydd CF yn cysylltu â Capita cyn gynted â phosibl ac yn sicrhau bod ganddynt amserlen wedi'i pharatoi ar gyfer eu cyfarfod â'r Fforwm Mynediad Lleol.</p>	<b>CF</b>
<p><b>Eitem 11 Tîm Mynediad i Gefn Gwlad CSC a Thîm Cyfreithiol CSC</b> CF</p> <p>Dywedodd CF fod strwythur newydd ar gyfer y tîm cynnal a chadw wedi cychwyn ond nad oedd ganddi gopi i ddangos i'r grŵp.</p> <p>Mae MH wedi gofyn am gopi o'r strwythur ar gyfer y Fforwm Mynediad Lleol.</p> <p>Gofynnodd CE pwy oedd yn gyfrifol am gael gwared ar sbwriel a adawyd yn anghyfreithlon oherwydd bu problemau yn ei hardal. Atebodd CF a JL mai cyfrifoldeb tîm Amddiffyn yr Amgylchedd oedd hyn.</p> <p>Dywedodd CF y bydd y cynorthwydd rhan-amser newydd yn dechrau'n fuan ac eglurodd ei rôl hi a dywedodd y bydd yn helpu i liniaru llwyth gwaith presennol y tîm Cyfreithiol.</p> <p>Holodd RL ynghylch faint o amser a gymerir i drefnu swyddi ac awgrymodd y dylai'r Fforwm Mynediad Lleol holi'r Prif Weithredwr neu Ruth Mullen ynghylch hyn.</p> <p>Esboniodd CF y sefyllfa bresennol ynghylch llwyth gwaith a chyfrifoldebau Steve Pilliner.</p> <p>Bydd MH yn cysylltu â'r Prif Weithredwr.</p> <p>Dywedodd GJ fod Cyfoeth Naturiol Cymru yn wynebu amser anodd hefyd wrth i gyflogau gael eu cwtogi a swyddi fod dan fygythiad.</p>	<b>AW</b>         <b>MH</b>
<p><b>Eitem 12 Adroddiad – anawsterau o ran Hawliau Tramwy Cyhoeddus</b> CF</p> <p>Dywedodd CF fod adroddiadau'n cael eu llunio heb fod yn hollol bob chwarter yn sgil gohirio cyfarfod mis Rhagfyr.</p> <p>Holodd GB ynghylch arwyddion camarweiniol – esboniodd CF.</p>	

<p>Holodd GW ynghylch cyfreithlondeb arwyddion 'Tarw yn y cae' – esboniodd CF.</p> <p>Nid oedd RL yn hapus â'r adroddiadau sydd, yn ôl pob golwg, yn dangos bod y rhwydwaith yn gwaethygu.</p> <p>MH i adrodd i'r Prif Weithredwr ynghylch problemau â'r swyddi.</p> <p>Mae CF wedi drafftio matrices sgorio o ran gorfodi sy'n cyd-fynd â dogfen gynnal a chadw'r tîm cynnal a chadw.</p> <p>Hoffai MH gael trosolwg / cyfarwyddyd ynghylch y matrices blaenoriaethau ar gyfer Anawsterau a Gorchmynion.</p> <p>Dywedodd CF fod angen mynd trwy hen orchmynion ac anawsterau cyn bod modd defnyddio matricesau'n effeithiol.</p> <p>Holodd KB ynghylch yr hen bolisi blaenoriaethu gan J Tudor / K Thomas, nad oedd erioed wedi'i gwblhau na'i weithredu. Bydd MH yn dod ag ef i'r Fforwm Mynediad Lleol.</p> <p>Bydd CF yn dosbarthu'r ddau bolisi blaenoriaethu cyn y cyfarfod nesaf.</p> <p>Holodd GW beth sy'n digwydd pan fydd cwynion a sawl gwrthwynebiad gan y Fforwm Mynediad Lleol.</p> <p>Dywedodd CF a JL fod nifer y cwynion a geir yn cael ei defnyddio i fesur y galw am gamau gweithredu; byddai sawl cwyn gan amryw o aelodau o'r un grŵp i bob pwrpas yn cam-lywio'r canlyniadau.</p> <p>Cytunodd MH y byddai'n well cynhyrchu un adroddiad.</p> <p>Gofynnodd KB am i'r drefn o flaenoriaethu defnyddwyr grŵp gael ei hystyried fel un o'r meini prawf ar gyfer y matrices sgorio newydd.</p>	<p><b>MH</b></p> <p><b>CF</b></p> <p><b>CF</b></p>
<p><b>Eitem 13 Adroddiad Gorchmynion</b> CF</p> <p>Mae nifer y gorchmynion a gwblhawyd yn cael ei nodi yn yr adroddiad. Mae'r canlyniadau yn dangos bod Gorchmynion Llwybrau Cyhoeddus yn cael eu cwblhau'n gyson ac felly hefyd, ond i raddau llai, gyda Gorchmynion Addasu Mapiâu Diffiniol (DMMO). Hefyd dangoswyd faint o Orchmynion Rheoleiddio Traffig a gwblhawyd.</p>	
<p><b>Eitem 14 Cyfarwyddyd diwygiedig Llywodraeth Cymru o ran hawliau tramwy cyhoeddus</b></p> <p>Trafodaeth gyffredinol ynghylch y ddogfen newydd.</p> <p>Esboniodd CF fod y cyfarwyddyd yn ategu'r cyfarwyddyd presennol ac yn crynhoi mewn un ddogfen gynhwysfawr, gan gyfeirio at ddeddfwriaeth fwy newydd megis y Ddeddf Teithio Llesol.</p> <p>Soniodd JL fod yna ddogfen gyfarwyddyd hefyd ar gyfer aelodau'r cyhoedd.</p> <p>Awgrymodd MH y dylai hon gael ei rhoi ar agenda'r mis nesaf.</p>	



<p><b>Eitem 15 Themâu Croeso Cymru 2017 a 2018 MH / CE</b></p> <p>Chwedlau - 2017; Y Môr wedyn yn 2018</p>	
<p><b>Eitem 16 Llwybr Calon Cymru CF</b></p> <p>Cafodd CF gyfarfod â Les, cynrychiolydd ‘Croeso i Gerddwyr’ Llanymddyfri.</p> <p>Esboniodd fod arian wedi’i gasglu drwy gyllido torfol i gynorthwyo’r awdurdod lleol i wneud gwelliannau (£2000 mewn tair wythnos) i’r Llwybr a ddynodwyd.</p> <p>Maen nhw’n awyddus i yrru’r prosiect yn ei flaen eu hunain, ac yn canmol CSC, a byddant yn gwthio rhai llwybrau tuag at frig yr agenda.</p> <p>Dywedodd KB y dylai unrhyw waith ar lwybrau ceffyl gyrraedd y safon a gallai’r gwaith dderbyn cyfraniad gan Farchogion Sir Gaerfyrddin. Cadarnhawyd hyn gan CF a chydabu y gallai’r cynnig gael ei basio at Grŵp Llwybr Calon Cymru (HOWLT).</p> <p>Holodd GW pwy fydd yn gwneud y gwaith; er bod Cymdeithas Llwybr Calon Cymru yn siomedig nad ymgynghorwyd â nhw, maen nhw o blaid y cynllun.</p> <p>Dywedodd CF fod Cynnal a Chadw yn casglu costau at ei gilydd a chaiff yr arian ei ddyrannu yn ôl y cyntaf i’r felin. Hefyd, dywedodd Cynnal a Chadw y byddai’n well osgoi cyllid grant pellach oherwydd byddai hynny’n ei gwneud yn haws cyflawni’r gwaith, gyda llai o fiwrocratiaeth. Gall gwaith pellach gael ei gyflawni gan ddefnyddio arian grant, o bosibl, unwaith y bydd y prif waith wedi’i gwblhau.</p> <p>Bydd GW yn ymdrechu i gael mwy o drenau’n rhedeg, ar sail y prosiect.</p> <p>Dywedodd CF ei fod yn cael ei ariannu’n rhannol gan Drenau Arriva a bod HOWLT yn awyddus i fod yn bresennol yn y cyfarfod nesaf i roi trosolwg – i’w gadarnhau.</p> <p>Trafododd CF lwybr caniataol gorsaf Llandeilo a holodd a ellid ei gymeradwyo fel rhan o’r cynllun. Mae HOWLT yn bwriadu cysylltu â’r aelod lleol a Threnau Arriva ynghylch hyn.</p>	<p><b>CF</b></p> <p><b>CF</b></p>
<p><b>Eitem 17 Cyfarfodydd y Fforwm Mynediad Lleol</b></p> <p>Holodd GW ynghylch y dyddiadau ar y wefan a dogfennau sydd o bosibl ar goll o’r wefan.</p> <p>Cadarnhaodd CF fod rhai Cofnodion a’r Adroddiad Blynyddol wedi diflannu o’r wefan. Rydym yn ceisio datrys hyn cyn gynted â phosibl. Y gobaith yw y bydd yr holl wybodaeth a’r holl ddogfennau yn ôl ar wefan CSC erbyn y cyfarfod nesaf.</p>	

## **Eitem 18 Eitemau agenda ar gyfer y dyfodol**

- 1) Cytundeb Dirprwyaeth Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
- 2) Fferm Wynt Brechfa
- 3) Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus – ymwneud y Fforwm Mynediad Lleol
- 4) Defnydd CSC o Orchmynion Rheoleiddio Traffig
- 5) Cyfarwyddyd Llywodraeth Cymru ar gyfer y cyhoedd o ran hawliau tramwy cyhoeddus – trafodaeth
- 6) Dogfennau Blaenoriaethu CSC – trafodaeth

\*\* Eitem i'r dyfodol pan fydd yr agenda'n dawelach – Gwella Mynediad i Farchogion a llwybrau i farchogion.

## **Unrhyw Fater Arall**

Holodd CE am restr o Wardeniaid yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol – mae JL mewn cyswllt cyson ag Uwch-warden yr YG a bydd yn cysylltu ag ef/hi am wybodaeth.

Mynegodd CR bryderon ynghylch camau posibl i wella mynediad i feicwyr yn dilyn erthygl ddiweddar mewn papur newydd.

Soniodd GJ fod afancod yn cael eu rhyddhau yn Sir Gaerfyrddin, ar afon Cywyn; ni ddylai hyn effeithio ar hawliau tramwy cyhoeddus.

Trafododd MH Adroddiad Blynyddol y Fforwm Mynediad Lleol; mae gan yr Awdurdod Lleol gyfrifoldeb i'w gynhyrchu, ac mae MH yn barod i'w wneud eto eleni.

Cododd MH bwnc Gorchmynion Rheoleiddio Traffig ar gilffyrdd a Ffyrdd Di-ddosbarth ac mae'n sylwi ar duedd i weithredu Gorchmynion Rheoleiddio Traffig yn hytrach na mynd i'r afael â phroblemau.